



Y Casglwr

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

SWYDDOGION

Cadeirydd:

E.WYN JAMES

Ysgol y Gymraeg,
Prifysgol Caerdydd

Ysgrifennydd:

MAREDUDD AP HUW

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion.
(01970) 632863

Trysorydd:

GWYNDAF ROBERTS

Cae'r Hafod, Maes Caled,
Dolgellau LL40 1UF
(01341) 423959

Golygydd:

MEL WILLIAMS

Tanycastell, Llanuwchllyn,
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA
(01678) 540652
e-bost: tanycastell@yahoo.com

CYNNWYS

	Tud.
Golygyddol	2
Gwasg Ysgol Dolwyddelan	3
Carthen Pwllheli	5
Hances Eisteddfod Pontypridd ...	7
Hel Lluniau	9
Cartŵn	11
Briwsion	12
Caradog Prichard	15
Atgofion Bore Oes	17
Adolygiadau	22

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd
erbyn Mai 15

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau lla-
far o erthyglau sy'n ymddangos yn
Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Miss Anne K. Tili (01970) 872077

Golygyddol

Penblwydd arbennig

Rydym eleni yn cyrraedd penblwydd Cymdeithas Bob Owen yn 30 oed ac mae'n bleser gen i ddweud ein bod yn ffyniannus iawn, gyda'r aelodau yn cynyddu yn fisol a'r gweithgareddau amrywiol a gynhelir yn dangos llwyddiant. Sefydlwyd y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor 1975, a daeth *Y Casglwr* cyntaf allan ym Mawrth 1976. Diolch i'r sylfaenydd, Gwilym Tudur am ei weledigaeth, ac i John Roberts Williams am feithrin a chynnal y gylchgrawn gyhyd.

Diwrnod Agored

Bydd y Diwrnod Agored yn cael ei chynnal yn Nhanybwlech eleni ac mae'n argoeli i fod yn un pleserus iawn. Mae'r enwau yn dod i mewn yn eithaf cyson a bellach ers lle i oddeutu hanner cant eto. Felly peidiwch â gwastraffu amser ac oedi gormod. Gyrrwch y ffurflen archebu, sydd y tu mewn, yn ddiymdroi. Bydd rhai llyfrwerthwyr yno, hefyd, rhag ofn eich bod awydd prynu cyfrol neu ddwy.

Taith Fws

Trefnir taith fws ar hyd Nant Ffrancoen a bro Caradog Prichard ac R. Williams Parry ddiwedd mis Mehefin o dan arweiniad J. Elwyn Hughes. Rhyw le i tua 25 fydd ar y bws, felly os ydych am sedd cysylltwch â'r golygydd yn ddiymdroi

Cais am Grant

Rhoddyd cais i mewn am grant oddi wrth y Cyngor Llyfrau eleni, ond ni fuom yn llwyddiannus y tro yma. Felly, rydym yn dal i fod yr unig gylchgrawn yng Nghymru sydd heb dderbyn nawdd.

Rhodd Gymorth

Dro yn ôl fe amgaewyd ffurflen Rhodd Gymorth yn *Y Casglwr* ar gyfer eich caniatad

i Drysorydd Cymdeithas Bob Owen hawlio adaliad treth incwm hyd at £1.80 y pen. Prin yw'r aelodau sydd wedi ymateb, ond os ydych am wneud cysylltwch â mi neu'r Trysorydd ac fe gewch ffurflen i'w harwyddo. Nid yw'n costio dim ichi. Mae pob ceiniog yn cyfrif yn enwedig pan nad ydym yn cael dim nawdd o gwbl.

Archeb Banc

Mae dros hanner ohonoch yn talu drwy Archeb Banc, bellach, ac eraill yn dod yn rheolaidd i'r babell bob Eisteddfod. Ond mae yna garfan nad ydynt yn talu'n rheolaidd. Felly eleni, rydym yn dileu enwau aelodau os nad ydynt wedi talu am ddwy flynedd. Mae gyrru tri rhifyn i aelod sydd heb dalu dros y cyfnod hwn yn golygu ein bod yn talu iddyn nhw chwe phunt y flwyddyn am y fraint o'u cadw nhw yn aelodau. Felly gwnewch yn siwr eich bod wedi talu.

Ffeiriau Llyfrau

Cynhelir Ffair Lyfrau Aberystwyth yng Nghanolfan y Morlan Aberystwyth ar Sadwrn 6 Mai 2006.

Penderfynwyd gosod stondinau yn Aberglasne ddiwedd mis Mehefin i weld pa ymateb fydd yn y rhanbarth yma o Gymru i ffair o'r fath.

Llywydd Anrhydeddus

Penderfynodd Pwyllgor Cymdeithas Bob Owen wahodd Dafydd Lloyd Hughes dderbyn yr iau o fod yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas. Mae ef wedi bod yn gefn i'r Gymdeithas o'r cychwyn.

YN EISIAU

Llythyrau a chardiau post gwreiddiol oddi wrth Gymry amlwg ynghyd â'r rhai sydd â'u cynnwys yn ddi-ddorol

Cysyllter â

R.M.Owen, 2 Dalur Wen, Dinbych, LL16 3HT
☎ 01745 813173

Cynhelir

DIWRNOD AGORED Y GYMDEITHAS

yn

NHANYBWLCH, MAENTWROG

DYDD SADWRN 22 EBRILL 2006
yn dechrau am 10 y bore

Ceir darlithoedd gan

J. ELWYN HUGHES: (*Fraethineb y Chwarelwyr*)

WILLIAM OWEN: (*Llew Llwydiarth*)

ARWEL (Roced) JONES: (*Cymdeithas y Lloeredigion
ym Meirion yn y 18g*)

DAVID MEREDITH: (*Yr hyn a welais ac a glywais*)

Bydd y diwrnod yn costio £21.50

(yn cynnwys te/coffi a bisgedi yn y bore a'r prynhawn
a chinio ganol dydd)

Gweler ffurflen archebu tu mewn